

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid, 14 Mai, 2024.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Cynghorwyr G.M. Ball, I.R. Buckley, C.M. Cowpe, R.E. Godfrey, S. Lloyd-Selby, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman, C. Stallard a N.C. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr C.P. Franks, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) ac E. Williams (Aelod Cabinet Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. PENODI IS-GADEIRYDD –

ARGYMHELLWYD – Y Cynghorydd N.C. Thomas yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

EITEM AGENDA 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gyngorwyr C.A. Cave ac A.M. Collins.

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Ebrill, 2024 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Gwnaeth y Cynghorydd S. Lloyd-Selby ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 5 ar yr Agenda – Diweddariad ar Werthuso Perfformiad o Wasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg ac Eitem 6 ar yr Agenda – Tracio Argymhellion Craffu o'r 4ydd Chwarter 2023/24 ac Atodlen Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol Arfaethedig 2024/25. Personol oedd natur ei diddordeb gan ei bod wedi'i phenodi'n aelod annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a enwebwyd gan Gyngor Bro Morgannwg.

EITEM AGENDA 5. ARFARNU PERFFORMIAD DIWEDDARIAD O WASANAETHAU CYMDEITHASOL BRO MORGANNWG (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi'r cynnydd yn erbyn y meysydd gwella a nodwyd a ddatblygwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), fel y nodir yn yr adroddiad diweddar.
- (2) Bod diweddariad pellach ar ymateb y Cyngor i argymhellion AGC yn yr Adroddiad Gwerthuso Perfformiad yn cael ei roi i'r Pwyllgor ymhen 12 mis.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) O ystyried cynnwys yr adroddiad diweddar, yn unol â chais y Pwyllgor ym mis Mai 2023, ynghylch y cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu i gyflawni'r meysydd gwella a nodwyd a bennwyd fel rhan o werthusiad perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023 .
- (2) Sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu i gyflawni'r meysydd gwella a nodwyd sydd 'wedi'u cwblhau â monitro parhaus' ac 'ar y gweill' yn y cynllun gweithredu cysylltiedig.

EITEM AGENDA 6. TRACIO ARGYMHELLION SGRIWTINI 4YDD CHWARTER 2023/24 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2024/25 (CAC) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiadau A a B i'r adroddiad.
- (2) Y dylid nodi Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2024/25 (Atodiad C), yng nghyd-destun Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol 2024/25.
- (3) Bod Atodlen Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2024/25, sydd ynghlwm yn Atodiad D, yn cael ei chymeradwyo a'i lanlwytho i wefan y Cyngor yn amodol ar wneud y diwygiadau a ganlyn cyn ei chyhoeddi:
 - Yr Adroddiadau Diogelu Corfforaethol Blynyddol a Chanol Blwyddyn yn cael eu llithro i'r misoedd dilynol yn unol â'r tystlythyrau cysylltiedig gan y Cabinet a dderbyniwyd.
 - Cydgyfnerthu "Cynllun Ardal ar y Cyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro (5 mlynedd nesaf) (Mehefin) gyda'r adroddiad "Diweddariad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg", i'w dderbyn ym mis Ionawr 2025.
- (4) BOD Y Cyngorwyr C.A. Cave, J.E. Charles, C.M. Cowpe, R.E. Godfrey, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman, C. Stallard ac NC Thomas i'w penodi i Weithgor

Canolfan Hamdden y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2024/25.

(5) BOD Y Cyngorwyr G.M. Ball, C.A. Cave, J.E. Charles, R.E. Godfrey, J.M. Norman, a N.C. Thomas i'w penodi i Weithgor Cyllideb y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2024/25.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan roi sylw i gynnwys yr adroddiad er mwyn parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Alinio ag adran 7.6 o Brotocol Rolau a Chyfrifoldebau'r Cabinet a Chraffu.

(3) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.

(4) I baratoi ar gyfer trefniadau yn y dyfodol mewn perthynas ag Ymweliadau â Chanolfannau Hamdden yn dilyn Aelodaeth Pwyllgor fel y cytunwyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 8 Mai, 2024.

(5) Paratoi ar gyfer trefniadau yn y dyfodol mewn perthynas â chyfarfodydd y Grŵp Cyllideb yn dilyn Aelodaeth y Pwyllgor fel y cytunwyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 8 Mai, 2024.